NEGES DYDD GŴYL DEWI 2020 0 YSGOL DYFFRYN TAF YN HENDYGWYN-AR-DAF

Rydyn ni, sy'n cynrychioli pobl ifanc Hendygwyn-ar-Daf, yn anfon ein cyfarchion at ein Senedd Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ddydd Gŵyl Dewi.

Cynlluniwyd Cofeb Hywel Dda gan yr artist Peter Lord o Aberystwyth, ac mae'n cynnwys gerddi a chanolfan wybodaeth. Bwriad Peter Lord oedd darparu amgylchfyd tawel a myfyriol ar gyfer archwilio "Cyfraith Hywel". Mae'r ganolfan hefyd yn cynnig lle i'r gymuned gael cwrdd i ddathlu hanes a diwylliant ein gwlad.

Heddiw, gofynnwn i chi fyfyrio ar ein gobeithion ni am ein dyfodol. Rhannwn eich gobeithion am 2020 lle bydd yr iaith Gymraeg yn gryf, bydd nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn, bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd a bydd pawb yn parchu ein hiaith, hanes a'n ffordd o fyw.

Rhaid defnyddio iaith o ddydd i ddydd os yw i ffynnu a hoffem weld yr iaith yn cael ei defnyddio i'n huno ni fel cymuned yma yn Hendygwyn ac yng Nghymru gyfan. Mae'r ffaith y bydd un o bob pedwar ohonom yn dioddef problem iechyd meddwl eleni yn ein brawychu ond os gwnawn y "pethau bychain", fel y gwnaeth Dewi Sant ei hun, gallwn ymdrechu i leddfu poenau a gofidiau ffrindiau, cydweithwyr a chymdogion. Rhaid sicrhau amser i siarad ac amser i wrando. Gadewch i ni ddefnyddio'n hiaith i ddod at ein gilydd, i estyn llaw ac i greu cymuned lle "Gallwn. Gofalwn".

SAINT DAVID'S DAY MESSAGE 2020 FROM YSGOL DYFFRYN TAF, IN WHITLAND

We, who represent the young people of Whitland, send our greetings to the National Senedd in Cardiff on Saint David's Day.

Hywel Dda's memorial was designed by Peter Lord from Aberystwyth and includes gardens and an interpretive centre. In choosing a garden as a basis for his design, the artist intended that it should provide a quiet environment in which to contemplate and explore the laws of Hywel Dda. The centre also offers a place for the community to unite to celebrate the history and culture of our land.

Today, we ask you to reflect on our hopes for the future. We share your hopes for 2020 that the Welsh language will be strong, there will be a million Welsh speakers, Welsh will be used in every aspect of life and everyone will respect our language, history and way of life.

A language must be used if it is to thrive and we want to see the language being used to unite us as a community, both here in Whitland and in the country as a whole. The fact that one in four of us will experience a mental health problem this year is truly frightening but if we do the "little things" like Saint David himself, we can attempt to ease the stresses and worries of friends, co-workers and neighbours. We need to create time to talk and time to listen. Let us use our language to come together, to offer a helping hand and to create a community where "We can. We care".